



ARDRETHU ANNOMESTIG
RHESTRAU ARDRETHU 2023

Canllaw i'n
HYSBYSIAD GWRANDAWIAD

Nid yw'r canllaw hwn yn cwmpasu pob agwedd o'r broses apelio. Nid oes rhaid i ni ddilyn popeth yn y canllaw hwn, ac nid yw'n effeithio ar sut rydym ni'n defnyddio'r deddfau neu'r rheoliadau perthnasol. Byddwn yn ymateb i unrhyw gais rhesymol gennych chi am gyngor neu eglurhad.

BETH YW HYSBYSIAD GWRANDAWIAD?

Mae ein hysbysiad gwrandawriad yn dweud wrthoch chi ble a phryd y bydd y tribiwnlys yn ystyried eich apêl.

Os na allwch chi ddod i'r gwrandawriad, naill ai'n bersonol neu drwy gyswllt fideo, ar y diwrnod a drefnwyd a bod gennych reswm da am fetu â bod yn bresennol, dylech gysylltu â swyddfa'r Tribiwnlys a gofyn am ddyddiad arall. Yn achos gohiriad, gall fod cryn amser cyn i ni allu rhoi dyddiad gwrandawriad newydd i chi.

Os oes unrhyw fanylion yn yr hysbysiad yn anghywir, gofynnir i chi gysylltu â swyddfa'r Tribiwnlys ar unwaith.

BETH SY'N DIGWYDD NESAF?

Disgwylir i bob parti ymddangos yn y gwrandawriad (naill ai'n bersonol neu drwy gyswllt fideo) oni bai eu bod yn rhoi rhybudd pythefnos o leiaf i'r Tribiwnlys eu bod yn dymuno i'r apêl gael ei chlywed heb iddynt fod yn bresennol. Os nad ydych yn ymddangos yn y gwrandawriad ac nad ydych yn cysylltu â'r Tribiwnlys ymlaen llaw, gall eich apêl gael ei gwrthod.

Os ydych yn setlo eich apêl, gofynnir i chi roi gwybod i'r Tribiwnlys achos gall fod modd prosesu eich apêl heb fod angen gwrandawriad, os bydd pob parti yn cytuno. Cewch dynnu eich apêl yn ôl, mewn ysgrifen, ar unrhyw gam cyn dyddiad y gwrandawriad.

PWYSIG: Gofynnir i chi gwblhau'r profforma amgaeedig i nodi sut yr hoffech chi i'r tribiwnlys glywed eich apêl a'i ddychwelyd yn syth i swyddfa'r Tribiwnlys.

SUT YDW I'N PARATOI FY ACHOS AR GYFER GWRANDAWRIAD Y TRIBIWNLYS?

Apelau Rhestr Ardrethu 2023

Gan mai eich apêl chi ydyw, eich cyfrifoldeb chithau yw paratoi eich achos a'i brofi. Rhaid i'r dystiolaeth a gyflwynir i'r tribiwnlys fod yr un dystiolaeth â'r hyn a gyfnewidiwyd ar y cam Herio ac a gynhwyswyd gyda'ch apêl pan gyflwynoch chi hi i'r Tribiwnlys.

Caniateir tystiolaeth newydd **mewn amgylchiadau eithriadol yn unig**. Os ydych chi eisiau cyflwyno unrhyw dystiolaeth newydd na chafodd ei chynnwys gyda'ch apêl gychwynnol, rhaid i chi ysgrifennu at y Tribiwnlys, o leiaf bedair wythnos cyn y gwrandawriad, ac egluro pam fod angen y dystiolaeth newydd, sut mae'n ymwneud â'r rhesymau sy'n sail i'ch cynnig, pam nad oedd ar gael ynghynt a datgan pryd y daeth i'ch meddiant. Rhaid i chi anfon copi o'ch cais at bob parti arall i'r apêl ar yr un pryd â gwneud eich cais i'r Tribiwnlys, a bydd ganddynt gyfle i wrthwynebu eich cais; os gwnânt hynny, rhaid iddynt anfon copi o'u gwrthwynebiad atoch chi. Mae'r rheolau hyn yr un mor gymwys i bartïon eraill sy'n dymuno cyflwyno tystiolaeth newydd a bydd rhaid iddynt roi gwybod i chi os dymunant wneud hyn. Cynhwysir mwy o wybodaeth yn y Cyfarwyddiadau Safonol sy'n ymddangos ar ein gwefan.

Dylid anfon eich datganiad achos, gan gynnwys unrhyw gynlluniau neu ffotograffau, at y Tribiwnlys a phob parti arall i'r apêl o leiaf bythefnos cyn dyddiad y gwrandawriad. Hefyd, bydd rhaid i bartïon

eraill i'r apêl anfon eu datganiadau achos at y Tribiwnlys ac atoch chi o leiaf bythefnos cyn y gwrandawriad.

Apelau Hysbysiad Cwblhau

Bydd angen i chi roi gwybod i'r tribiwnlys am gyflwr yr eiddo lle cyflwynodd y cyngor hysbysiad cwblhau a chefnogi eich datganiad gyda, er enghraifft, thystiolaeth ffotograffig neu restr o'r gweithiau sydd yn weddill a'u cost.

Apelau Hysbysiad Cosb

Bydd angen i chi argyhoeddi'r tribiwnlys na ddylai'r VOA fod wedi cyflwyno hysbysiad cosb arnoch chi.

Os yw'r VOA wedi cyflwyno cosb arnoch chi gan ei fod yn credu eich bod wedi anfon deunydd anwir i gefnogi eich gwiriad neu eich cynnig i newid y rhestr ardrethu, yna dylech brofi i'r tribiwnlys naill ai fod y deunydd yn gywir neu, os dangosir bod y deunydd yn wallus mewn rhyw ffordd, nad oeddech wedi'i gyflwyno yn fwriadol, yn ddi-hid neu yn ddiotal ar y pryd. (Cosbau Rhan 2 yw'r rhain)

Yn achos cosbau a osodwyd am fetu â rhoi gwybodaeth i'r VOA, bydd angen i chi ddangos nad oedd gennych yr wybodaeth y gofynnwyd amdani, eich bod wedi darparu'r wybodaeth (e.e. prawf postio) neu fod gennych esgus rhesymol dros oedi rhoi'r wybodaeth. (Cosbau Atodlen 9 yw'r rhain)

A OES ANGEN I MI DDOD I'R GWRANDAWRIAD?

Fel arfer mae'n well os gallwch ddod i'r gwrandawriad, naill ai'n bersonol neu drwy gyswllt fideo, gan fod hyn yn caniatáu i'r materion sy'n creu anghydfod gael eu hegluro a'u cwestiynu, os oes angen.

Fel arall, gallwch gysylltu â'r Tribiwnlys o leiaf bythefnos cyn y gwrandawriad i roi gwybod iddo eich bod yn dymuno i'ch achos gael ei glywed yn eich absenoldeb neu ddefnyddio'r profforma amgaeedig i roi gwybod i'r Tribiwnlys am eich dewis i gael gwrandawriad yn eich absenoldeb. Bydd partïon eraill yn dod i'r gwrandawriad o hyd. Bydd yn dal yn ofynnol i unrhyw gyflwyniadau i'r achos gael eu hanfon i'r Tribiwnlys a'u copïo at bartïon eraill o leiaf bythefnos cyn y gwrandawriad a gallai methu â gwneud hyn arwain at ddileu neu wrthod eich apêl.

PWY FYDD YN Y GWRANDAWRIAD?

Aelodau'r Tribiwnlys Prisio

Fel arfer, bydd tri aelod yn clywed eich apêl, er y gall dau aelod glywed apêl os yw pawb yn y gwrandawriad yn cytuno. Bydd un o'r aelodau yn cadeirio'r cyfarfod. Pobl leol yw aelodau'r Tribiwnlys sy'n wirfoddolwyr. Maent yn derbyn hyfforddiant ac maent yn brofiadol o ran clywed apelau. Mae aelodau'r Tribiwnlys yn annibynnol ar y VOA sydd wedi rhoi'r gwerth ardrethol ar yr eiddo a'r Cyngor/Awdurdod Bilio (AB) sy'n anfon y biliau ardrethi.

Clerc y tribiwnlys

Bydd y clerch yn gweithredu fel ymgynghorydd ar bwyntiau'n ymwneud â gweithdrefnau a'r gyfraith. Mae'r clerch yn weithiwr cyflogedig o'r Tribiwnlys ac nid yw'n cymryd unrhyw ran yn y penderfyniad. Fodd bynnag, y clerch sy'n gyfrifol am ysgrifennu'r rhesymau am y penderfyniad.

Cynrychiolydd(-wyr) o'r VOA (apelau Rhestr Ardrethu a Chosb)

Bydd aelod neu aelodau o staff y VOA yn mynychu er mwyn cyflwyno ei achos.

Cynrychiolydd(-wyr) o'r AB (apelau Hysbysiad Cwblhau)

Bydd aelod neu aelodau o staff yr AB yn mynychu er mwyn cyflwyno ei achos.

Unrhyw barti arall i'r apêl

Er bod hyn yn anghyffredin, gall unrhyw feddiannydd/drethdalwr arall o ran eiddo'r apêl ers i'r gwiriad gael ei gyflwyno ofyn i'r Tribiwnlys eu hychwanegu fel parti i'r apêl.

Chi

Cewch chi ddod i wrandawriad y tribiwnlys neu gallwch ddewis cael eich cynrychioli, er enghraifft, gan ffrind neu ymgynghorydd proffesiynol. Dylai fod gan unrhyw un sy'n mynychu ar eich rhan eich awdurdod ysgrifenedig i weithredu. Hefyd cewch ddod â rhywun gyda chi fel tyst.

Aelodau'r cyhoedd

Mae gwrandawriad y tribiwnlys yn agored i aelodau'r cyhoedd, ond fel arfer yr unig rai eraill sy'n bresennol yw'r rhai sy'n aros am wrandawriad eu hachos eu hunain.

Gallwch ofyn i'r apêl gael ei chlywed yn breifat, er hynny mae'n rhaid i chi roi rheswm da am hyn. Cyn i wrandawriad preifat fedru gael ei gynnal, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r tribiwnlys gael ei argyhoeddi y byddai effaith andwyol ar eich buddion pe bai'r achos yn cael ei gynnal yn gyhoeddus.

BETH SY'N DIGWYDD YNG NGWRANDAWRIAD Y TRIBIWNLYS?

Mae'r gwrandawriad yn eithaf anffurfiol, a bydd y tribiwnlys yn ceisio sicrhau bod pawb yn ymlacio. Fodd bynnag, bydd y tribiwnlys yn dilyn gweithdrefn i sicrhau bod pob parti yn gallu cyflwyno eu hachosion. Y tribiwnlys fydd yn penderfynu pwy sy'n cychwyn.

Yn ystod y gwrandawriad:

- Bydd pob parti yn rhoi eu hachos;
- Byddwch yn gallu gofyn cwestiynau i gynrychiolydd y VOA/AB (ac unrhyw barti arall);
- Bydd cynrychiolydd y VOA/AB (ac unrhyw barti arall) yn gallu gofyn cwestiynau i chi;
- Gallai'r tribiwnlys ofyn cwestiynau i chi ac i'r partïon eraill; a
- Gall y clerch ofyn cwestiynau i'r partïon hefyd er mwyn eglurhad.

Cyn cau'r gweithrediadau, gall y tribiwnlys ofyn i'r partïon grynhoi eu hachosion.

Os na ddewch chi i'r gwrandawriad a na chewch eich cynrychioli yn y gwrandawriad, gall y tribiwnlys wrthod eich apêl.

A GAF I FY HYSBYSU AM Y PENDERFYNIAD AR Y DIWRNOD?

Mae'r rhan fwyaf o dribiwnlysoedd yn neilltuo eu penderfyniadau ac yn eu hanfon gyda'r post neu drwy ebost. Yn ôl y gyfraith, rhaid i ni roi copi ysgrifenedig i chi o'r rhesymau am y penderfyniad. Bydd y tribiwnlys yn rhoi gwybod i chi pryd gallwch ddisgwyl y penderfyniad ysgrifenedig.

Cyhoeddir holl benderfyniadau'r tribiwnlys ar wefan TPC.

A ALL Y TRIBIWNLYS DDYFARNU COSTAU?

Na all. Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim. Y cyfan y mae'n rhaid i chi ei wneud yw talu eich treuliau eich hun (a threuliau unrhyw un sy'n eich cynrychioli) wrth baratoi eich achos a dod i'r gwrandawriad.

BETH OS OES GEN I ANGHENION YCHWANEGOL?

Os oes gennych chi unrhyw anghenion yn ymwneud, er enghraifft, â'ch golwg, clyw neu symudedd, neu os oes arnoch chi angen cyfieithydd, rhowch wybod i swyddfa'r Tribiwnlys ymlaen llaw, os gwelwch yn dda, ac fe wnawn ein gorau i gynorthwyo. Gellir ein hysbysu am anghenion ar y profforma ymateb y cyfeirir ato ar dudalen gyntaf y daflen hon.

A GAF I GWYNO AM Y GWASANAETH A DDARPARWYD?

Os oes gennych gŵyn am sut mae gweinyddiaeth TPC wedi ymdrin â'ch achos, dylech ysgrifennu at y Tribiwnlys yn y lle cyntaf, i'r cyfeiriad a ddangosir ar ein hysbysiadau. Cewch wybod am drefn gwyno lawn y Tribiwnlys yn ateb y clerch.

Cewch ddefnyddio'r broses hon i wneud cwyn am y modd yr ymdriniwyd â'ch apêl yn weinyddol gan y Tribiwnlys yn unig. Caiff apêl bellach yn erbyn y penderfyniad ei gwneud i Siambr Diroedd yr Uwch Dribiwnlys.

DEWIS IAITH: CYMRAEG NEU SAESNEG

Fel mater o drefn caiff hysbysiadau eu paratoi naill ai yn Gymraeg a/neu Saesneg gan ddibynnu ar yr iaith a ddefnyddiwyd yn y cais gwreiddiol am apêl. Fodd bynnag, gallwch roi gwybod i ni am newid dewis iaith tra byddwn yn gweinyddu eich achos ac yn trefnu eich gwrandawriad tribiwnlys.

Croesewir gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd ysgrifennu atom yn Gymraeg yn arwain at oedi yn ein hateb.

Mae'r canllaw hwn yn un o gyfres o daflenni sy'n rhoi gwybodaeth am ein gwasanaethau. Mae ein canllawiau eraill yn cynnwys:

- canllaw i'n hysbysiad cydnabod apêl; a
- canllaw i'n hysbysiad penderfynu.

Hefyd, rydym yn cynnig canllawiau ar ddelio gydag apelau Prisio'r Dreth Gyngor, Atebolrwydd i Dalu'r Dreth Gyngor a Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Mae'r canllaw hwn ar gael ar wefan TPC neu gellir gofyn amdano trwy gysylltu â swyddfa'r Tribiwnlys i'r cyfeiriad a ddangosir ar ein hysbysiadau.

Ein cofnodion

Yn ôl y gyfraith, caiff unrhyw un ymweld â swyddfa'r Tribiwnlys i edrych ar gopiâu o agendâu a phenderfyniadau a wnaed gan y Tribiwnlys yn y chwe blynedd diwethaf. Rhestrau o apelau yw'r agendâu y rhoddwyd dyddiad gwrandawriad iddynt.

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am TPC a'i gyhoeddiadau ar ein gwefan:

www.tribiwnlysprisio.cymru

Mae hefyd yn cysylltu â phorth lle gallwch weld ein rhestrau a phenderfyniadau apêl ar-lein.

Deddfwriaeth berthnasol

Y brif ddeddfwriaeth ar gyfer gweinyddu Ardrethu Annomestig yw **Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988** a rheoliadau ategol, yn benodol:

Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) (Cymru) WSI 2023/350

Ein swyddfa

Tribiwnlys Prisio Cymru
22 Gold Tops
CASNEWYDD
NP20 4PG

Ffôn: 01633 255003

E-bost: gohebiaeth@tribiwnlysprisio.cymru